# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/06/2022 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | Hywel James Sinclair Evans | Patricia Hope-Whitney |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Alaw Ceris | Wiliam Roger Jones |
| Ann L Wililams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) | | |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   David Andrew Parry, Ian Goronwy Williams a Greta Hughes.

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 30/05/2022**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: William Roger Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim.

5. **Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2021-2022 –** Dogfennau cysylltiedig – Ffurflen Flynyddol 2021-2022, Cysoniad Banc 2021-2022, Cyfrifon 2021-2022 ac Adroddiad Archwilwyr Mewnol 2021-2022.
   Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol, Adroddiad Archwiliad Mewnol, Cysoniad Banc â'r Cyfrifon iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Fe aeth y cadeirydd drwy bob dim er mwyn rhoi eglurhad i bawb a diolchodd i'r clerc am ei gwaith drwy'r flwyddyn yn paratoi ar gyfer yr archwiliad. Yn wreiddiol pan dderbyniwyd yr adroddiad gan yr archwilwyr mewnol 'roedd dau risc wedi cael ei godi ond mae'r cadeirydd wedi egluro'r sefyllfa hefo'r arian sydd wedi ei roi i'r Cyngor Cymuned gan Mrs Harris yn ei ewyllys sef fod yr arian i fod i gael ei ddefnyddio ar gyfer y fynwent yn unig ac felly nid yw yn rhan o'r arian wrth gefn felly mae adroddiad diwygiedig wedi ei dderbyn gyda'r risc yma wedi cael ei dynnu i ffwrdd. Gofynnodd y cadeirydd os oedd gan yr aelodau gwestiynnau.
   Gofynnodd Hywel James Sinclair Evans os yw'r Cyngor Cymuned yn cael y TAW yn ôl a cadarnhaodd y clerc ei bod wedi gwneud ad-daliad TAW a'i fod wedi ei dderbyn yn y banc am y flwyddyn 2021-2022.
   Gofynnodd Alan Harper-Smith os yw'r rhestr asedau yn cael ei newid o flwyddyn i flwyddyn a dywedodd y cadeirydd ei fod ar yr agenda i'w drafod heno.
   Gofynnodd Alaw Ceris os yw Neuadd y Pentref ar wahan a cadarnhaodd y cadeirydd ei fod ar wahan.
   Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2021-2022.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Alaw Ceris

6. **Cŵyn am blac o lechen ar garreg wrth ymyl y tocyn cerrig ar Mynydd Tir Cwmwd.**
Mae'r cadeirydd wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am garreg goffa sef plac o lechen wedi ei osod ar garreg wrth ymyl y tocyn cerrig ar Mynydd Tir Cwmwd a'r pryder yw y bydd mwy yn cael eu rhoi yna heb ganiatad pan mae mynwent bwrpasol yn y pentref ar gyfer gosod cerrig beddi. Perchnogion y Mynydd yw Llanbedrog Headland Company felly y nhw sydd yn gyfrifol am roi caniatad ar gyfer gosod unrhyw beth ar y Mynydd ac felly nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw hawliau ar y Mynydd ond yn y gorffennol mae'r Cyngor Cymuned wedi gyrru llythyr i'r perchnogion ynglŷn â hyn ond heb dderbyn ymateb. Cadarnhaodd Gwenllian Davenport Hughes fod y garreg goffa yma wedi bod yna ers dalwn ac nid rhywbeth diweddar yw hyn. Rhaid cofio hefyd fod y Mynydd wedi ei warchod gan SODdGA (SSSI) ac felly mae beth sy'n cael ei wneud ar y Mynydd i fod yn rhwystredig.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r perchnogion i ofyn beth yw eu barn nhw am osod unrhyw beth ar y Mynydd a dweud wrthynt beth yw barn y Cyngor Cymuned ar hyn.

7. **Cais i roi carreg goffa ar y wal ym mynwent Llanbedrog.**
Mae'r clerc wedi derbyn cais i roi carreg goffa ar y wal ym mynwent Llanbedrog, dywedodd yr ymgeisydd fod yna un yno yn barod ond mae'r clerc a'r cadeirydd wedi bod o amgylch y fynwent i gyd ac wedi methu cael hyd iddi. Fe fydd rhaid penderfynnu ar y gost o osod y garreg goffa a penodi lle yn y fynwent i'w gosod. Mae ffioedd claddu yn cael ei adolygu y mis nesaf felly fe awgrymodd Alan Harper-Smith y bydd rhaid penderfynnu ar gost o osod carreg goffa bryd hynny. Gofynnodd Alaw Ceris os oes mynwent arall hefo cerrig coffa ynddynt a dywedodd Thomas Victor Jones bod mynwent Deneio hefo rhai ar y wal yng nghefn yr eglwys.
Penderfyniad: y clerc i ofyn i'r ymgeisydd am y mesuriadau erbyn y pwyllgor nesaf er mwyn penderfynnu'r pris ac i ofyn i Gynghorau Cymuned a Thref os ydynt yn caniatau gosod cerrig coffa yn eu mynwentydd. Mae Thomas Victor Jones am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am fynwent Deneio i gael mwy o wybodaeth.
Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Alaw Ceris

8. **Adolygu y Rhestr Asedau ac Asesiad Risc.**
Nid yw'r cadeirydd wedi cael cyfle i fynd drwy'r rhestr asedau na'r asesiad risc a gofynnodd os oedd unrhyw un arall wedi bod drwyddynt yn ddigon trwyadl i drafod y mater heno. Gofynnodd Alan Harper-Smith pam fod y swm sydd ar gyfer y sied yn y cae chwarae wedi mynd i fyny o £1,500.00 i £10,000.00 a dywedodd y clerc bod y £1,500.00 i lawr fel pris prynu a'r £10,000.00 i lawr fel pris yswiriant. Hefyd nid oedd yn gallu gweld ffigwr ar gyfer offer y cae chwarae i lawr ar y rhestr a dywedodd y clerc bod yna £36,000.00 ar y rhestr ar gyfer offer y cae chwarae o dan rhif 41 a dywedodd y cadeirydd bod rhaid adolygu'r swm yma gan fod llawer o'r offer wedi mynd erbyn hyn.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf i bawb gael cyfle i fynd drwyddynt eto.

9. **Arwyddion Busnesau yn y Pentref.**

Eisiau gwybod y drefn o gael caniatad i roi arwydd penodol ar gyfer busnes yn y pentref mae Alaw Ceris oherwydd fod arwyddion a baneri newydd wedi cael eu rhoi i fyny ar y ffens sydd wrth ymyl Glyn y Weddw ac hefyd ar arwyddion ffordd o gwmpas y pentref. Mae'r arwyddion brown gan Cyngor Gwynedd sy'n hysbysebu busnesau yn gorfod cael caniatad ond mae'r arwyddion yma yn wahanol a'r pryder sydd gan Alaw Ceris ydi y bydd busnesau yn rhoi arwyddion eu hunain i fyny o gwmpas y pentref heb fynd drwy'r broses cywir o gael caniatad gan Cyngor Gwynedd a'u bod yn wahanol i'r rhai brown sydd i fod i gael eu rhoi i fyny. Mae Alan Harper-Smith wedi rhoi rhai i fyny ar bostyn sydd ar Lôn Pin ar gyfer ei fusnes o sydd yn wahanol i'r rhai brown ac mae o wedi talu amdanynt ei hun ac wedi cael caniatad gan y person sydd biau'r postyn ac fe ymddiheurodd am beidio mynd drwy'r sianeli iawn i roi y rhai brown i fyny. Mae Hywel James Sinlair Evans yn cytuno hefo Alaw Ceris bod dyletswydd i wneud yr arwyddion yma yn ddwyieithog ac mae angen pwysleisio hyn wrth y busnesau yma ac mae William Roger Jones yn cytuno. Dywedodd Alaw Ceris dyna pam mae'r canllawiau yma yn eu lle i sicrhau fod yr arwyddion yma yn ddwyieithog a petai pawb yn mynd drwy Cyngor Gwynedd i gael y caniatad angenrheidiol am yr arwyddion brown yma ni fyddai'r broblem yn bodoli. Mae Thomas Victor Jones yn cynnig o hyn allan y dyliai bawb fynd drwy Cyngor Gwynedd i roi arwyddion i fyny yn swyddogol a cynigiodd William Roger Jones y dyliai rhywbeth gael ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned yn dweud ei fod yn ddisgwyliedig fod pob arwydd sydd yn cael ei roi i fyny yn un dwyieithog ac mae Hywel James Sinclai Evans yn eilio. Gofynnodd Gwenllian Davenport Hughes os ydi Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfraniad ariannol tuag at cyfieithu'r arwyddion brown a dywedodd y cadeirydd fod rhaid i'r ymgeiswyr dalu am ganiatad i roi yr arwyddion brown i fyny. Gofynnodd Alaw Ceris os ydi'r arwyddion sydd ar y ffens wrth ymyl Glyn y Weddw ar dir preifat neu ar dir Cyngor Gwynedd a dywedodd y cadeirydd a'r clerc na Cyngor Gwynedd fel arfer sydd yn gyfrifol am y palmant a'r ffens sydd ar ochor y brifford. Dywedodd Thomas Victor Jones bod yr arwyddion yma yn fater o ddiogelwch ffyrdd yn y fan yna oherwydd maent yn amharu ar weledеdd wrth ddod allan o'r gyffordd. Mae rhai o'r arwyddion yn y fan honno yn hysbyseb priodasau a digwyddiadau ac nid yw rhai ohonynt yn cael eu tynnu lawr am amser maith ar ôl y digwyddiad, un enghraifft o hynny yw fod arwydd priodas ar waelod Lôn Bribwll ers bron i flwyddyn bellach ac nid oes neb wedi ei dynnu i lawr.

Penderfyniad: Rhoi datganiad i fyny ar wefan y Cyngor Cymuned yn dweud ei bod yn ofynnol i unrhyw fusnes ddilyn y drefn statudol o gael caniatad gan Cyngor Gwynedd am yr arwyddion brown.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: Hywel James Sinclair Evans

**10. Rheolau ac Ymddygiad Aelodau mewn cyfarfod Cyngor Cymuned**

Gan nad oedd gan y Cyngor Cymuned ganllawiau ynglŷn â cynnal cyfarfod rhithiol mae'r cadeirydd wedi cael copi gan gyngor cymuned arall ac mae'r clerc wedi ei anfon i'r aelodau iddynt gael ei ddarllen cyn y cyfarfod gyda'r bwriad o'i gymeradwyo.

Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y Rheolau Cyfarfod Rhithiol i'r Cynghorwyr a'i gymeradwyo.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Alaw Ceris

**11. <u>Llwybrau</u>**

Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angela Russell.
Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r Cynghorydd Angela Russell ac mae hi wedi symud y fainc o flaen y neuadd yn barod ar gyfer ei lleoli yn y pentref. Mae angen mainc o flaen Eisteddfa ond oherwydd nad oes cefn i'r fainc yma nid yw yn addas ar gyfer y safle yma felly fe fydd rhaid cael un arall ar gyfer y fan honno..
Mae'r cadeirydd wedi derbyn cwyn ynglŷn â'r llwybr sydd yn mynd heibio Henllys Isaf i fyny i Henllys Uchaf ac at y 'jam pot', wrth basio Henllys Bach mae tyfiant o amgylch y gamfa ac angen ei dorri, rhif y llwybr yw rhif 6. Mae'r clerc am gysylltu hefo Osian Parry i ofyn iddo fynd i'w dorri.
Diolchodd y cadeirydd i Alan Harper-Smith am drefnu torri y llecyn drost y ffordd i'r ysgol ac mae'r Cynghorydd Angel Russell wedi cynnig y buasai ei gŵr yn fodlon torri'r llecyn yma o hyn allan. Mae'r cadeirydd wedi trio ei ffonio i drafod y mater ond wedi methu cael gafael arni felly mae o am drio eto a dweud fod y Cyngor Cymuned yn hapus hefo'r trefniant ac I ddiolch iddynt.
Dywedodd William Roger Jones bod y clerc wedi anfon ebost i'r aelodau gan Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod yn mynd i wneud y prif doriad gwledig ffyrdd sirol yn ystod yr wythnosau nesaf felly gobeithio y bydd y llecynnau o gwmpas y pentref yn cael eu torri. Mae llawer o'r llecynnau yma yn fler iawn ac os na fyddent yn cael eu torri gan Cyngor Gwynedd yn rhan o'r cynllun yma yna fe fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned drefnu eu torri. Penderfynwyd aros i weld beth sydd yn cael ei dorri a trafod y mater mis nesaf.
Gofynnodd y cadeirydd os yw'r ffynnon wedi cael ei thorri a cadarnhaodd y clerc ei bod wedi gofyn i Osian Parry ei thorri a dywedodd William Roger Jones ei bod yn edrych yn iawn.
Gofynnodd Alan Harper-Smith beth sy'n digwydd i'r llwybr sy'n mynd heibio Wern gan fod tyfiant ofnadwy arno yn amal ond dywedodd y caderiydd ei fod wedi cerdded ar ei hyd yr wythnos diwethaf a'i bod yn edrych yn iawn.
Cadarnhaodd y cadeirydd fod y llwybr 'zig zag' wedi cael ei dorri.

**12. <u>Y Fynwent</u>**

Y Fynwent Newydd – Cais Cynllunio – trefnu cyfarfod yn y neuadd
Fe geisiodd y clerc drefnu cyfarfod yn y neuadd y mis diwethaf i drafod cais cynllunio y fynwent newydd ond yn anffodus nid oedd noson ar gael pan oedd yr aelodau i gyd yn rhydd felly fe fydd rhaid trefnu cyfarfod yn ystod y bythefnos nesaf. Cynnigiodd Gwenllian Davenport Hughes wneud doodle poll a'i yrru i'r aelodau drwy ebost.

**13. <u>Cae chwarae</u>**

Mae Alaw Ceris wedi sylwi fod ffram drws cefn y garej sydd yn cae chwarae wedi cael ei dorri ac mae'r cadeirydd am gysylltu hefo Roger Fisher i'w drwsio a gwneud yn siwr ei fod hefo clo newydd ac yn hollol safff yn barod ar gyfer y peiriant torri gwellt newydd. Awgrymodd Gwenllian Davenport Hughes y buasai'n syniad cael CCTV yno a dywedodd Alaw Ceris ei fod yn fwriad cael CCTV yno yn y dyfodol ac y buasai'n ddiolchgar o dderbyn unrhyw wybodaeth ganddi am wahanol fathau o CCTV's.
Sefydlu Is-bwyllgor penodol ar gyfer y cae chwarae.

Mae yna is-bwyllgor penodol ar gyfer y cae chwarae yn barod a cafwyd diweddariad gan Alaw Ceris. Sefydlwyd y pwyllgor cyn y pandemic ac maent wedi medru codi dipyn o arian yn barod, mae'r cyfarfodydd wedi ail gychwyn rwan hefo nifer yn mynychu ac felly mae'r momentwm wedi ail ddechrau. Y cam cyntaf ydi trwsio'r ffens ac maent wedi cael dyfynbris gan gwmni o gontractwyr ac fe fydd cais am grant gan yr AHNE yn cael ei roi i fewn ar gyfer hyn. Gofynnodd Alan Harper-Smith os oes modd cael grant gan y Loteri ac hefyd bod perchennog y 'Beach Bar' sydd wrth y traeth wedi cynnig iddo y buasai'n fodlon helpu i godi arian i'r cae chwarae. Cadarnhaodd Alaw Ceris fod y 'Beach Bar' yn hel arian iddynt yr wythnos yma ac mae arian ar ei ffordd gan Asda hefyd drwy'r tocynnau gwyrdd. Mae'r peiriant torri gwair i fod i gyrraedd yn yr wythnosau nesaf ac fe fydd gwair y cae pel droed yn cael ei dorri ac mae dyfynbris wedi ei dderbyn ar gyfer cael pyst pel droed yr un fath ag oedd yna o'r blaen. Mae'r pyst yn iawn yn cwrt pel fasged ond mae angen cefn a 'hoop' newydd yno a ffens newydd o'i amgylch felly mae pethau yn dechrau digwydd yn y cae chwarae. Cafodd Alaw Ceris ei llongyfarch am yr holl waith yma gan William Roger Jones a Hywel James Sinclair Evans.

**14. <u>Neuadd y Pentref</u>**

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd

Flynyddoedd yn ôl 'roedd pwyllgor penodol ar gyfer y Neuadd hefo cynrychiolaeth o bob mudiad o'r pentref a oedd yn defnyddio'r Neuadd e.e. capel, ysgol, eglwys, clwb ieuenctid, clwb snwcer a dipyn mwy ond bellach gan nad oes pwyllgor yn bodoli mae aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog yn Ymddiriedolwyr y Neuadd. Mae hi'n elusen gofrestredig gan y Comisiwn Elusennau ac mae'r clerc yn diweddaru'r manylion ariannol ar y wefan bob blwyddyn. Patricia Hope-Whitney wnaeth y cynnig yma i ail-sefydlu pwyllgor penodol ar gyfer y Neuadd a dywedodd y buasai'n hapus i gyd-weithio i wella'r neuadd ac awgrymodd y buasai'n syniad siarad gyda Neuaddau eraill i weld sut y mae nhw yn gweithio yn enwedig yr un yn Nefyn a Sarn. Awgrymodd hefyd y dylid rhoi taflenni drwy ddrysau y tai yn y pentref yn gofyn i'r trigolion os oes diddordeb ganddynt i ddod at eu gilydd i ail sefydlu y Neuadd. Mae hi yn hapus i drefnu ail baentio'r neuadd a'i glanhau, mae angen ail wneud y toiledau ac mae angen offer newydd yn y gegin. Bydd rhaid cael pawb at eu gilydd i weithio ar godi arian drwy roi ceisiadau grant i fewn i'r Loteri a mudiadau eraill. Fel cyn aelod o bwyllgor y Neuadd dywedodd Thomas Victor Jones ei fod yn falch iawn fod Patricia Hope-Whitney yn arwain ar hyn ac awgrymodd iddynt gael cyfarfod cyhoeddus ar ôl rhoi taflenni dwy ieithog drwy ddrysau trigolion y pentref ac yna yn y cyfarfod cyhoeddus penodi Ysgrifennydd, Trysorydd a Cadeirydd a symud ymlaen o hynny. Dywedodd y cadeirydd oherwydd pwysau gwaith nid oedd yn gallu cynnig ei hun i fod ar y pwyllgor yma a gofynnodd os oedd rhywun arall yn fodlon i gychwyn y broses yma. Awgrymodd Thomas Victor Jones gan fod Ian Goronwy Williams ynghlwm â'r clwb snwcer efallai y byddai ef hefo diddordeb ond bydd rhaid aros tan y pwyllgor nesaf gan ei fod wedi ymddiheuro heno. Gofynnodd Alan Harper-Smith os oes rhaid i'r pwyllgor fod mor ffurfiol a cael Trysorydd, Ysgrifennydd a Cadeirydd ac eglurodd Alaw Ceris bod gan pwyllgor y cae chwarae y swyddogion yma a bod ganddynt gyfrif banc a cyfansoddiad a'i bod yn hanfodol cael rhain yn eu lle er mwyn medru rhoi ceisiadau am grant i fewn a diolchodd Alan Harper-Smith iddi am y wybodaeth.

Dywedodd y cadeirydd fod yna gyfrif banc yn bodoli i'r Neuadd eisioes ac mae yn elusen gofrestredig ac mae yna gyfansoddiad felly mae rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei wneud yn barod. Gan ein bod wedi rhedeg allan o amser i drafod y mater yma ymhellach fe fydd yn cael ei roi ar agenda mis nesaf.

Codi prisiau llogi'r neuadd – ei roi ar agenda mis nesaf.

**<u>Taliadau wedi eu cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 3 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£195.00** |
| **Ashley Hughes** – Cerdyn | **£2.22** |
| **Roger Fisher** – Llafur y meinciau a'r hysbysfyrddau | **£495.00** |
| **PPM Technology** – Nwyddau i adnewyddu'r meinciau a hysbysfyrddau | **£78.56** |
| **Dylan Roberts** – chwistrellu chwyn laddwr yn Cae Chwarae, Llanbedr | **£120.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| **G D Roberts** – Angladd Pamela June Littler | **£145.00** |

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C22/0531/38/CC –** Encil, Glynyweddw, Llanbedrog – Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.
Penderfyniad: Gadael i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.
**C22/0582/38/DT** – Môr a Mynydd, Ffordd y Traeth, Llanbedrog – Dymchwel ystafell haul un llawr presennol a chodi estyniad un llawr to gwastad yn ei le gyda balconi uwchben.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Mae'r cadeirydd eisiau rhoi cwyn i fewn am gais cynllunio C21/0276/38/DT – Glan y Gors, Llanbedrog. Caniatawyd y cais nôl yn Gorffennaf 2021 a'r bwriad a ganiatawyd oedd estyniad unllawr cefn i ddisodli strwythur presennol. 'Roedd y cadeirydd yn cerdded pasio yn ddiweddar a wedi sylwi fod yna lawer o goed wedi cael eu torri i lawr, maent wedi clirio llecyn mawr iawn yno ac wedi rhoi tywod a graean i lawr. Nid yw torri'r coed yn rhan o'r cais felly mae angen rhoi cwyn i fewn i'r adran cynllunio ynglŷn â hyn. Mae'r clerc am roi cwyn i fewn cyn gynted a phosibl.

Bu cyfarfod blynyddol AHNE Llŷn yn gynharach heddiw ac mae Thomas Victor Jones, sydd ar y pwyllgor yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanbedrog, ac wedi bod yn is-gadeirydd y llynedd wedi cael ei ethol yn gadeirydd eleni, cafodd ei longyfarch gan y cadeirydd.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/06/2022 7:00yh – O Bell

Cafwyd cwyn gan William Roger Jones nad yw'r garreg sy'n coffau agor y lôn newydd wedi cael ei ail baentio er ei fod wedi cael ei basio mewn pwyllgor blaenorol ac hefyd mae'r plac sydd ar y ffynnon wedi gwisgo ac yn aneglur iawn felly pasiwyd i'w roi ar yr agenda mis nesaf. Dywedodd Thomas Victor Jones fod y gwaith o ail baentio'r plac ar y lôn newydd wedi cael ei wneud ond ddim yn iawn ac felly yn ôl yn yr un cyflwr mewn ychydig fisoedd ac yn cyd-fynd ei fod angen ei wneud eto.

Mae Thomas Victor Jones yn bryderus bod arwyddion wedi cael eu rhoi fyny wrth ymyl Glyn y Weddw a Penrhos sy'n dweud 'dim marciau ffordd', mae'r arwyddion yma wedi cael eu rhoi i fyny yn hytrach na peintio'r llinellau gwyn ar y ffordd sy'n warthus. Mae hon yn lôn beryglus iawn gyda nifer o ddamweiniau wedi digwydd arni felly mae'n hanfodol bod y llinellau gwyn yma yn cael eu paentio cyn gynted a phosibl. Dywedodd Alaw Ceris bod yr un broblem ar Lôn Bribwll hefyd gyda arwyddion 'wyneb dros dro' yn y fan honno sydd yno ers 11 mlynedd. Cynnigiodd Thomas Victor Jones bod y clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd gyda neges gryf iawn ynglŷn â hyn cyn i ddamwain ddigwydd a gofyn iddynt beintio'r llinellau cyn gynted a phosibl a cytunodd yr aelodau i gyd.

Cafwydd diweddariad gan y cadeirydd ynglŷn â'r toiledau sef bod y trydannwr wedi bod yno yn trwsio y goleuadau ac fe gadarnhaodd Wiliam Roger Jones ei fod wedi bod i lawr yn y traeth ac wedi gweld fod y goleuadau ymlaen.

Gofynnodd y cadeirydd i'r clerc os oedd diweddariad yngŷn â'r potiau blodau ac fe gadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu hefo Canolfan y Gwystl a ddywedodd wrthi eu bod yn mynd i blannu blodau yn y potiau yr wythnos diwethaf. Mae hi am ffonio eto i weld os ydy'r gwaith wedi cael ei wneud.

Mae David Andrew Parry wedi ffonio y cadeirydd i adael iddo wybod am rhywbeth a ddigwyddod wrth iddo fynd a'r ci am dro ddiwedd yr wythnos diwethaf. Fel yr oedd yn pasio Ger y Nant 'roedd rhywun wedi rhoi arwydd 'no parking' ar un o botiau blodau y Cyngor Cymuned ac wrthi yn rhoi yr un arwydd ar y pot blodau arall sydd yno felly fe ddywedodd David Andrew Parry wrtho na eiddo'r Cyngor Cymuned oedd y potiau blodau ac iddo eu tynnu i lawr. Mi wylltiodd y person yma a bygwth David Andrew Parry hefo morthwyl yn ei law felly fe ddywedodd David Andrew Parry wrtho i roi y morthwyl i lawr ac cerddodd David Andrew Parry i ffwrdd. Dywedodd y person yma ei fod am gwyno am hyn wrth y Cyngor Cymuned. Mae'r potiau yma wedi cael eu lleoli ar dir preifat sef tir yn perthyn i'r ystad yna felly efallai y byddant yn mynnu bod y potiau blodau yn cael eu symud oddi ar y tir oherwydd y digwyddiad yma.

**Cais am gyfraniad**

Dim.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9yh.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•